Gwybodaeth
i rieni

# Arian i Ysgolion ar gyfer Anghenion Dysgu Ychwanegol

**Mae Cyngor Caerdydd yn newid y ffordd rydym yn ariannu ein hysgolion i gefnogi plant a phobl ifanc ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY).**

Mae'r daflen hon wedi'i chreu i esbonio'r newidiadau.

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg
/This document is available in English

CRYFACH
TECACH
GWYRDDACH

STRONGER
FAIRER
GREENER

CARDIFF
CAERDYDD

## Beth fydd yn newid?

**O dan y system Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) blaenorol, mae Cyngor Caerdydd wedi darparu cyllideb i bob ysgol ar gyfer dysgwyr 'Gweithredu gan yr Ysgol' neu 'Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy', a chyllideb 'Taliad Gwella Anghenion Cymhleth' ar gyfer dysgwyr sydd â datganiad o AAA.**

O fis Ebrill 2023 bydd hyn yn newid. Bydd gan ysgolion un gyllideb Cymorth ADY i wneud Darpariaeth Ddysgu Ychwanegol (DDdY) ar gyfer pob dysgwr ag ADY.

Ni fydd y gyllideb Cymorth ADY bellach yn seiliedig ar ddysgwyr a enwir ond bydd yn cael ei phennu gan fformiwla.

Ni fydd angen i ysgolion wneud cais i banel yr Awdurdod Lleol am benderfyniad ariannu mwyach cyn penderfynu ar y cymorth y bydd ei angen ar eich plentyn; gellir gwneud penderfyniadau ar lefel ysgol mewn trafodaeth â chi.

## Symud i ffwrdd o gefnogaeth 'un i un'

Fel rhan o'r newidiadau ariannol, mae'r awdurdod lleol yn annog ysgolion i adolygu sut maen nhw'n cefnogi plant.

Er bod llawer o ddysgwyr yn ein hysgolion sydd angen lefelau uchel o gymorth - gydol y diwrnod ysgol mewn ambell achos - nid cymorth 'un i un' yw'r ffordd orau o ddarparu hyn fel arfer.

Mae llawer o ysgolion wedi canfod mai cyfuniad o gymorth a rennir, gwaith grŵp bach, a rhywfaint o ymyrraeth unigol, yw'r ffordd fwyaf effeithiol o sicrhau bod disgyblion ag ADY:

- Yn cael cyfleoedd i ddysgu trwy ryngweithio â phlant eraill;
- Yn cael eu cefnogi i ddatblygu annibyniaeth ar gyfer dysgu;
- Yn ddiogel ac yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol;
- Yn osgoi mynd yn orddibynnol ar un oedolyn a enwir yn yr ysgol.

## Beth mae hyn yn ei olygu i'ch plentyn?

**Rhaid i ysgolion sicrhau bod pob plentyn ag ADY yn cael cymorth effeithiol i ddiwallu eu hanghenion.**

Mae hyn yn cynnwys plant a gafodd eu hariannu'n uniongyrchol o dan yr hen system AAA a phlant y mae eu Hanghenion Dysgu Ychwanegol wedi'u hadnabod ar ôl gweithredu'r dull ADY.

Efallai y bydd ysgolion yn penderfynu newid y modd y maent yn darparu'r cymorth hwn, i gynnwys mwy o gyfleoedd ar gyfer cymorth grŵp neu gymorth a rennir.

Rhaid trafod unrhyw newidiadau gyda chi a'ch plentyn neu berson ifanc a dylai hyn ystyried unrhyw gyngor proffesiynol am anghenion eich plentyn.



## Beth os oes gan fy mhlentyn ddatganiad o AAA sy'n cynnwys cyllid ar gyfer cymorth un i un?

**Wrth gynllunio cymorth i'ch plentyn, rhaid i ysgolion sicrhau bod y ddarpariaeth a nodir mewn datganiadau AAA yn cael ei darparu.**

Mewn rhai achosion, efallai y bydd ysgolion wedi penderfynu cyflogi cynorthwyydd addysgu i roi cymorth un-i-un, er bod y rhan fwyaf o ddatganiadau AAA yn nodi dull mwy hyblyg a chymysg o roi cymorth.

Er enghraifft, mae llawer o ddatganiadau yn dweud y dylai ysgolion ddefnyddio'r cyllid i:

***'Targedu datblygiad anghenion dysgu a nodwyd (y plentyn) drwy gefnogaeth grŵp bach, cymorth unigol, neu i alluogi'r plentyn i gael gafael ar unrhyw gyfleoedd addysgol priodol eraill a fyddai o fudd (i'r plentyn) a'i helpu i wneud cynnydd'.***

Os bydd ysgolion yn penderfynu newid y ffordd y maent yn darparu cymorth, bydd hyn yn cael ei drafod gyda chi a'ch plentyn/person ifanc. Dylai'r ysgol egluro sut y byddant yn parhau i sicrhau bod eich plentyn/person ifanc yn cael ei gefnogi'n dda yn unol â'i ddatganiad.

## A yw lefel yr arian ar gyfer ADY yn cael ei leihau?

## Nac ydy!

**Mae'r gyllideb ADY a ddirprwyir i ysgolion yn 2023-24 yn uwch na'r swm a roddwyd i ysgolion yn 2022-23.**

Bydd cyfran y gyllideb a ddyrennir i ADY yn cael ei hadolygu'n gyson a'i chytuno gydag ysgolion bob blwyddyn drwy'r Fforwm Cyllideb Ysgolion.

### Drwy gydweithio gydag ysgolion, bydd Awdurdod Lleol Caerdydd yn:

- Cefnogi ysgolion i gynllunio, monitro ac adolygu'r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol. Bydd hyn yn cael ei wneud trwy godi ymwybyddiaeth, hyfforddiant a rhannu arfer da rhwng ysgolion.
- Datblygu gweithgorau i edrych ar gyfathrebu, cynllunio darpariaeth ysgol gyfan a phontio yn y blynyddoedd cynnar.

# Cwestiynau Cyffredin

## Os bydd fy mhlentyn yn trosglwyddo o un ysgol i ysgol arall, fydd arian ar gyfer ADY yn trosglwyddo gydag ef?

Ni fydd cyllidebau ysgolion yn cael eu cysylltu â phlant sydd wedi'u henwi'n unigol mwyach, felly ni fydd addasiad ariannol pan fydd plant yn trosglwyddo o ysgol i ysgol.

Mae gan bob ysgol ddyletswydd statudol i nodi a gweithredu DDdY ar gyfer pob plentyn ag ADY, felly rhaid i'r ysgol newydd sicrhau bod eich plentyn yn parhau i gael cefnogaeth.

## Beth allaf ei wneud os nad ydw i'n hapus neu os oes gen i gwestiwn am sut mae'r newidiadau yn effeithio ar fy mhlentyn?

Yn y lle cyntaf siaradwch â'r ysgol neu'r lleoliad, naill ai athro'ch plentyn, neu'r Cydlynydd ADY i drafod eich pryderon.

Mae gan Gaerdydd hefyd linell Gyngor a Chymorth ADY y gallwch gysylltu â hi gydag unrhyw gwestiynau neu ymholiadau:

**Ffon: 02920 872731**

**Ebost: LlinellGymorthADY@caerdydd.gov.uk**

Rydym wedi trefnu sesiynau galw heibio ar gyfer rhieni/gofalwyr, er mwyn esbonio'r newidiadau o'r system AAA i'r dull ADY, felly dewch i siarad ag aelod o'r Tîm Cynhwysiant.

Dan y Cod ADY, mae gan blant a phobl ifanc (neu eu rhieni/gofalwyr, sy'n gweithredu ar eu rhan) yr hawl i ofyn i'r awdurdod lleol Ailystyried penderfyniad ysgol os nad ydynt yn hapus am:

- Benderfyniad ADY wedi'i wneud gan yr ysgol
- Cynnwys Cynllun Datblygu Unigol

Os nad ydych yn hapus â phenderfyniad ysgol, dylech siarad am hyn gyda'r ysgol yn gyntaf.

Os nad ydych wedi gallu dod i gytundeb, gallwch wedyn wneud cais Ailystyried drwy'r Llinell Gymorth ADY.

Pan fyddwn yn derbyn cais Ailystyried, rydym yn:

- cysylltu â'r teulu i gael gwybod pam mae pryder,
- cysylltu â'r ysgol i siarad am y rhesymau dros ei phenderfyniad,
- ystyried a ddylid cael mwy o gyngor proffesiynol,
- gwneud penderfyniad a rhoi gwybod i'r teulu a'r ysgol.

Mae gwybodaeth am y system a'r prosesau ADY newydd ar gael ar wefan y Cyngor .

www.evenbright.com

www.caerdydd.gov.uk/ADY